# DINESYDD Hydref

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1980

RHIF 71


# DYFODOL ADDYSG GYMRAEG

Mae addysg plentyn yn gwestiwn llosg bob amser, ond ar hyn o bryd mae gan Dde Morgannwg broblem ddiddorol i'w dehongli, sef problem prifiant, neu sut i greu sistem o addysg Gymraeg a fydd yn debyg o blesio pawb.

Mae gan y sir ar hyn o bryd sawl Uned ddwyieithog sy'n cynnig mesur o addysg Gymraeg i'r plant, yn Ysgolion Babanod ac Iau Heol Llanishen-fach, Rhiwbeina, Tonyrywen, Cefn-onn, Lansdowne Rd ac Eglwysnewydd.

Dywedwyd wrth Y Dinesydd fod rhai o'r rhain yn fwy llwyddiannus na'i gilydd. Mae'n anodd gwybod sut i fesur llwyddiant. Y llinyn mesur gorau, hwyrach, yw'r nifer o blant sy'n mynd o'r unedau hyn i Ysgol Uwchradd Glan-taf.

Mae nifer calonogol yn gwneud hynny, ac yn llwyddo'n dda yno ar ôl cyrraedd. Hynny yw, o'i datblygu'n iawn, mae'r sistem yn gweithio.

Ond mae problem plant yr iaith gyntaf ychydig yn fwy dyrys. Yma, gellir defnyddio'r gair, "nifer" fel llinyn mesur. Bryn-taf wedi tyfu'n llawn dop, gan orfodi'r ddinas i weithio ar y broblem.

Cam cyntaf tra llwyddiannus fu sefydlu Ysgol Melingruffydd. Bydd hon yn ysgol o 200 o blant cyn hir, ac fe fydd adroddiad ar ei blwyddyn gyntaf yn Y Dinesydd y mis nesaf.

Beth, er hynny, yw gweddill y cynlluniau?

Cafodd Y Dinesydd wybod mai **dyma** yw'r patrwm ar hyn o bryd. Bydd un ysgol Gymraeg yng Nghefn-Onn, a bydd, gwaetha'r modd, yn disodli'r uned sydd yno yn barod. Mae hyn yn resyn, ond mae'n anodd parhau'r cynllun gyda mor ychydig o blant yn dod i mewn mewn blwyddyn ysgol ar hyn o bryd.

Ar y funud, y cynllun yw troi Ysgol y Babanod yn Ysgol Gymraeg a rhoi'r plant sydd ddim i gael addysg trwy'r Gymraeg yn y rhan gynradd. Bydd rhaid darparu adeiladau ychwanegol yno, a'r gobaith yw y bydd y rhain yn barod erbyn Medi 1981 fel y gellir ad-drefnu'n ddiffwdan. Fel y dengys y llun yma, mae'r adeiladau'n rhai hyfryd.



Bydd ysgol arall yn agor ym Mhentrebane - eto mewn adeilad dymunol, sef hen ysgol y babanod. Go brin y bydd lle gan neb i achwyn ar ei le, ond bydd y rhan fwyaf o'r plant yn gorfod cael eu cludo yno - fel sy'n digwydd yn awr i ysgol Bryn-taf wrth gwrs.

Ac fe fydd yr ysgol honno (a'r enw enwog) gyda ni o hyd, ond gydag ychydig o welliannau, gobeithio. Fel y gŵyr llawer, mae'r sistem wresogi wedi bod yn peri trafferth yn ddiweddar.

Pan fydd y cynllun yn ei lawn dwf, bydd 200 o blant ym mhob un o'r ysgolion yma, ac os yw'r Dinesydd yn gallu gwneud ei syms yn iawn, mae'n cyfrif y bydd 800 yn medru cael addysg Gymraeg yn hytrach na'r 600 a allai fynd i'r hen Fryn-taf llawn dop.

Fydd ceidwaid y fro Gymraeg ddim yn barod i gredu hyn, ond plant dosbarthiadau gweithiol fydd cyfartaledd uchel ohonyn nhw!

Eto, fe all y gair, "dalgylch" fod yn broblem cyn hir. Mae mor anodd gwybod ble i dynnu llinell wrth benderfynu ble y mae plant i fynd, a chyda'r ysgolion mewn gwahanol rannau o'r ddinas, yn bell oddi wrth ei gilydd, gall Y Dinesydd weld ambell fwgan yn mynnu codi ei ben.

Pen draw'r cyfan, wrth gwrs, yw Glan-taf. Fe welwch adroddiad ar dwf yr ysgol mewn man arall yn y rhifyn hwn - adroddiad tra chalonogol.

Fel y dengys y llun yma, dyma adeilad dymunol iawn eto. Ein gobaith ni i gyd yw y bydd yn rhy fychan chwap ac y bydd galw am ysgol uwchradd arall eto.




**CODI'R TO**

Y REARDON SMITH — HYDREF 25

Cofiwch ddod

# Golygyddol

Dyletswydd i ddechrau - sef diolch i bob un ohonoch a fu mor garedig â ffonio i ddweud ichi hoffi rhifyn Medi o'r papur. Gwaetha'r modd, nid ar ôl y rhifyn cyntaf y dylid pwyso a mesur gwaith golygydd, ond ar ôl blwyddyn o waith. Mae'n gymharol hawdd i'r brws newydd ysgubo deunydd i'w golofnau. Fe welir newid yn y rhifyn hwn, er enghraifft - sef prinder mân newyddion sydd yn simentio'r holl bapur wrth ei gilydd. Dyna yw un o wreiddiau cymdeithas - awydd i fusnesa ynghylch ein gilydd a gwybod am ein mynd a'n dod. Mae'r golofn hon yn broblem hefyd:

Does gan y golygydd presennol ddim i'w ddweud yn bersonol dros golofn olygyddol reolaidd mewn papur bro; yn bennaf am nad oes ganddo'r syniad lleiaf beth i'w ddweud ynddi. Y drefn fel rheol yw sylwi ar un neu rai o bynciau llosg y dydd a thraethu arnyn nhw, gan fynegi polisi'r papur, mewn ffordd.

Fel un o'r rhai a fu wrthi'n rhoi cychwyn i'r Dinesydd,gŵyr mai ei bolisi personol yw defnyddio'r papur, mewn rhyw ffordd i ddwyn y dinasyddion yn nes at ei gilydd - ond dyw hyn fymryn gwahanol i bolisiau pob golygydd arall o'i flaen. Fe synnech, er hynny, pa mor anodd y gall hi fod i'n cael at ein gilydd trwy golofnau'r papur.

Fe wyddoch fod gyda ni banel golygyddol, ac yn ei gyfarfod olaf, penderfynwyd gofyn i'r aelodau ganolbwyntio ar rai agweddau o'r gwaith. Enwir y rhai a all fod yn berthnasol i chi yma.

Bydd Mr Gwyn Lewis Davies yn cadw llygad ar newyddion o'r addoldai. Ei gyfeiriad yw 13, Rannock Drive a'i rif ffôn yw 756882. Bydd yn cysylltu ag ysgrifenyddion gwahanol gymdeithasau'n fisol i gael eu newyddion.

Bydd Mrs Siân Emlyn Edwards, 12, Heol Lady Mary (564888) yn gyfrifol am gasglu mân newyddion (genedigaethau, llongyfarchion, symud aelwyd ac ati), felly anfonwch bopeth naill ai ati hi neu at y golygydd (42988). Mae Mrs Mallt Anderson, 158, Ffordd Ddwyreiniol y Llyn (753695) o hyd yn gyfrifol am y calendr; felly, anfonwch bopeth iddi hi. Gwn fod pethau wedi bod yn flêr yn y gorffennol, am resymau nad oes angen mynd ar eu holau yma. Ond rydyn ni wedi dehongli ein holl broblemau erbyn hyn. Fe welwch fod calendr y papur hwn yn hir, ond gall ymestyn eto. Anfonwch wybod i ni am bopeth, a thrwy hyn bydd llai o berygl i bethau wrthdaro.

Bydd y golygydd newydd yn dechrau ar ei waith o ddifrif gyda rhifyn Tachwedd, a bydd ei banel golygyddol cyntaf yn cyfarfod gyda phob newydd yn wythnos gyntaf mis Hydref.

Cofiwch, eich papur chi yw'r Dinesydd. Does yr un rheswm paham na all fod yn ddolen gyswllt i bawb. Os oes unrhyw gymdeithas yn ei chael hi'n anodd i gael copiau neu yn dymuno cael copiau, cysylltwch ag Alan Jobbins, 47 Heol Wingfield (63275). Ef sy'n gyfrifol am y dosbarthu, ac mae'n barod i wrando ar gwynion ac awgrymiadau pawb.

Rhan bwysig o weithgaredd unrhyw bapur yn cyhoeddi pob math o hysbyseb. Gan ein bod yn awr yn teipio'r papur, gallwn gynnig telerau sy dipyn yn fwy ffafriol i gymdeithasau ac unigolion. Anfonwch unrhyw hysbyseb ac unrhyw wybodaeth am hysbyseb i Mr Ieuan Lewis, ein swyddog hysbysebion newydd. Cewch bob gwybodaeth amdano mewn rhan arall o'r papur.

# CICONIA AR DAITH

Ga nwyd wyres i'r Parchedig a Mrs Elfed Davies, sef Elisabeth Angharad. Mae Malcolm a Calan, rhieni'r ferch yn byw ar hyn o bryd yn Nhwicenham ond mae gwreiddiau Calan yng Nghaerdydd

Ganwyd wyres hefyd i Emrys Cleaver - ar Orffennaf 28, sef Esther Nia Ann. Mae'r teulu yn byw yn Y Rhath, Caerdydd.

Ac yn olaf, ganwyd wyres i Mrs Davies, Tŷ'r Cymry. Cynon, sydd â'i wreiddiau yng Nghaerdydd yw'r tad, ond mae'r teulu yn byw yn Llundain ar hyn o bryd.

Croeso hefyd i Illtud Llyr, mab i Delyth a Mel Dunsford, sy'n byw yn Rhiwbeina.

## LLWYDDIANNAU

Y mae Rhianydd Newbury wedi dechrau ar ei swydd fel Ysgrifenyddes efo Mudiad Ysgolion Meithrin. Y mae Rhianydd o Ynysybwl ac yn gyn ddisgybl o Rydfelen. Dymunwn yn dda iddi.

---

Llongyfarchiadau i Mr. Emrys Evans, Dinas Powis ar ei benodi yn Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol.

## CYLCH CINIO GWRAGEDD CAERDYDD

Swyddogion Newydd:
Llywydd: Mrs. Beryl Hall; Ffôn: 751841
Ysgrifenyddion: Mrs. Vera Davies, 561553; Mrs. Mair Evans, 561776
Trysorydd: Hazel Doull, 68193
Os am fanylion cysylltwch â'r Swyddogion.

# BRENHINES



Ydy'r wyneb yma'n gyfarwydd i chi?
Os ydych chi'n darllen y newyddion o'r sioe genedlaethol, bydd yr ateb gyda chi'n syth. Achos hi oedd brenhines y sioe am eleni.


Ond beth sydd a wnelo hyn â'r Dinesydd?

Rhiannon Roberts o Landeilo ydy hi, ond Rhiannon o Rad-yr oedd hi. Nawr, mae wedi symud yn ôl i Gaerdydd,dros dro, ac yn fyfyrwraig yng Ngholeg Addysg Cyncoed.

Roedden ni i gyd yn falch i Rhiannon gael ei dewis yn frenhines y sioe o blith cynifer o ferched. Fe fyddai ambell un (gyda'i dafod yn ei foch!) yn dweud nad oes dim fel magwraeth mewn dinas ar gyfer bod yn frenhines sioe genedlaethol!

Pob hwyl iddi ar ei chwrs newydd.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn     RHIF 7





Ar Draws

1. Mewn gwahanol leoedd (3,2,3)
5. Pentre bychan (a mynydd) yn Sir Forgannwg sydd yn gwrthod gwresogi rhy ddrud (1,5)
9. Aberthu o'r newydd? (8)
10. Ffrwyth lladrad a roddodd y cyfan i Alys, ond hefyd hanner i Bili (6)
12. Y tylwyth y mae'r Gwladfawyr yn rhan ohonynt bellach(2,9)
15. Lliw'r dwrgi gwyllt (5)
17. Mwynhau rhagddodiad atblygol beiddgar yn casglu rhwd (9)
18. Pan ddaw tywydd mawr yn llythrennol a dyddiau blin yn ffigurol (2,1,6)
19. Mae'r Sais yn defnyddio nuance y Ffrancwr. Dyma'r Cymro, yn ei ddull ei hun, yn gwneud yr un peth (5)
20. Ysgol gyfun yng Nghwm Tawe (4,1,6)
24. Amserau Oed Crist yn Rhufain ac enw geiriadurol ffals (6)
25. Rhyfedd! Eira dan do! (2)
26. Cyflafan a gorymdrech (5)
27. Lloches wedi ei hadeiladu o estyll a phedol (6)
28. Gwneuthurwr pob math o bethau (8)

I Lawr

1. Gwŷr sydd ar y ffordd i fod yn arbenigwyr mewn hyfforddiant (2,8)
2. Dos a swydd ragot i ddangos cynhesrwydd (10)
3. Gorchymyn a roed gan yr Iesu ond sy'n golygu "Peidiwch a sôn!" ym Morgannwg. (5)
4. Gweithwyr taeog o Lyfr Josua (8,4)
6. Pentre sy'n storfa rhy agos at Gaernarfon (9)
7. Gorweddfan anifail - mur heb do (4)
8. I osod dy bethau! (4)
11. Dosbarth arall o daeogion Josua. (9,3)
13. Mae'n codi â nod yn ei galon i roi hyfforddiant. (10)
14. Y tu ôl i'r pared mae enllib ar enw Saesneg ac eiddgarwch annaturiol (10)
16. Y weithred o ganslo (9)
21. Mae e'n gwneud hyn bob bore (onid yw yn un o'r barfogion(5)
22. Mae tir hwn yng nghyffiniau Maesteg. (4)
23. Creadur sy'n ddirgel elyn ac yn glynu'n ddiollwng. (4)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 6

Ar Draws: 2. HYNODI; 5. HAIG; 8. (ddi)G-WRTH-UN (o'r teulu); 10. HI('n bwrw glaw); 11. LLYGOTA; 12. E-DI-FARU; 13. LLENG; 14. (y)NA(d); 15. SON-ATA; 16. ENCILIO; 20. DE; 21. YS; 22. TU(d); 23. Y BEDWAREDD SIANEL; 27. AR; 28. YR; 29. IE; 31. ARGOELI (gei ar ôl); 33. LIBART (tail B.R.); 35. IT; 36. AEL; 37. GWYRDDNI (gŵr ynddi); 38. UNTREW; 39. DO; 40. LLEFAIN; 41. IAITH; 42. RHIANEDD;

I Lawr: 1. FFRAINC (ffa crin); 2. HUNAN-LYWODRAETH; 3. YN; 4.DA; 6. AM-O-DAU; 7. GWAHANGLEIFION; 8. GWELED Y GOLEUNI; 9. CYNGOR SIR GWYNEDD; 10. (di)HUNO); 11. LLES; 17. (y)NEB (sydd ganddo glustiau); 18. (dillad) ISA; 19. BUDD; 22. TER; 24. RAS; 25. SYR; 26. EIL; 30. ABATAI; 31. ATGO; 32. EIDDGAR (ei gardd).

(Anghofiwyd cynnwys un cliw bach sef 39a i lawr: Dilyw (2). A'r ateb - LLI.)

# LLWYDDIANT

Oes gennych chi gopi o'r Dinesydd, rhifyn Hydref 1975. Os oes e, trowch ato ac fe welwch stori am Nicholas Gardiner.

**Pwy oedd e, te?**

Plentyn ysgol gynradd yn ardal seisnig Tre-lai oedd e, a swm a sylwedd y stori oedd iddo lwyddo i feistroli'r Gymraeg o dan amgylchiadau digon anodd - yn bennaf oherwydd ymroddiad ei athro, John Blake, sydd nawr wedi mynd yn brifathro i'r fro Gymraeg.

Nid Nicholas yw'r unig un sydd wedi meistroli'r iaith mewn ysgol gynradd, wrth gwrs. Erbyn hyn, mae nifer o blant mewn unedau Cymraeg yng Nghaerdydd yn gwneud yn rhyfeddol o dda, ond doedd mo manteision y to presennol gan Nicholas. Er hyn i gyd, penderfynodd barhau gyda dysgu Cymraeg a mynnu rhagor o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr unig ffordd o wneud hynny oedd mynd i ysgol Rhydfelen - a pha ffordd well?

Ymgartrefodd yno am saith mlynedd gan gymryd rhan naturiol yn holl fywyd yr ysgol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Yn wir, bu'n un o arweinwyr ei lys yn ddiweddar. Pleser o'r mwyaf oedd clywed am ei lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Maesteg y llynedd. Ef oedd y trydydd yng nghystadleuaeth y fedal ddrama.

Bellach, y mae Nicholas Gardiner yn un o gynddisgyblion yr ysgol. Safodd arholiadau safon uwch Y Cydbwyllgor Addysg yr haf hwn mewn tri thestun, Cymraeg, Saesneg a Hanes, a llwyddodd i ennill graddau disglair. Mae â'i fryd yn awr ar fynd i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, i ddilyn cwrs gradd yno. Dymunwn yn dda iddo. Mae'n debyg y clywn ragor amdano yn y dyfodol agos.

MI GLYWAF DYNER LAIS

Clywyd llais newydd ar y Radio sef Daloni Roberts sydd yn hannu o Dywyn. Cyn ymuno a'r BBC bu yn dysgu Drama Saesneg yng Ngholeg Technegol Bangor.

# STORI JANET



Stori am Janet Teal yw hon. Fe'i ganwyd yn Llundain a daw o dras celtaidd. Wedi gorffen ei haddysg uwchradd, aeth ymlaen i ddilyn cwrs yng Ngholeg Llyfrgellwyr Birmingham. Am rai blynyddoedd wedyn bu'n cyflawni swydd llyfrgellydd yng Ngholeg Addysg Jakarta, Indonesia. Oddi yno, fe aeth yn llyfrgellydd at Y Cyngor Prydeinig yn Athen, cyn symud yn ôl i'r Cyngor Prydeinig yn Llundain a dal swydd weinyddol yno.

Ond mae'r cam pwysicaf ar ôl.

Y llynedd, fe briododd Gymro Cymraeg, Mr Rhys Daniel, pennaeth Yr Adran Gelf yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Pan oedd Janet yn Indonesia ac yng Ngroeg, fe lwyddodd i feistroli ieithoedd y ddwy wlad mewn byr o dro a dyma hi nawr yn cymryd diddordeb yn y Gymraeg. Wedi ymgartrefu yng Ngawelodygarth, ym mis Tachwedd, y llynedd, ymunodd â'r cwrs dysgu Cymraeg a drefnir gan Mr Cennard Davies a Mr Basil Davies yn Y Coleg Politechnig, Y Barri. Erbyn hyn, mae'n siarad Cymraeg yn rhugl, ac yn ei hysgrifennu'n feistrolgar.

Mor sicr yw ei gafael fel y cafodd gyfle i sefyll arholiad safon O, y dystysgrif gyffredinol, ym mis Mehefin eleni a llwyddo'n anrhydeddus drwy gipio gradd A yn yr arholiad hwnnw. Dywed ei bod yn gobeithio parhau i astudio'r iaith.

Pwy a ŵyr? Efallai y clywn amdani fel enillydd tystysgrif uwch eto yn y dyfodol agos. Pob dymuniad da iddi.

Mae'n cynrychioli'r ysbryd ymarferol sydd gan yr ifanc tua'r iaith Gymraeg y dyddiau hyn.

DERBYNIAD YSTORMUS:

Nos Iau, 11 Medi, cynhaliwyd derbyniad yn Swyddfeydd yr Academi Gymreig yn Heol Bute Caerdydd i ddathlu cyhoeddi am y tro cyntaf erioed 'Storm' gyntaf Islwyn.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Dr Geraint Gruffydd, Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol a chadeirydd Pwyllgor Clasuron yr Academi.

Golygwyd y gyfrol gan Meurig Walters a siaradodd ef yn huawdl ynglŷn ag arwyddocâd y gerdd. Marw ei ddyweddi, Ann Bowen, a ysgogodd, neu yn wir a gynhyrfodd Islwyn i ysgrifennu'r gerdd, er nad yw yn alarnad.

Cafwyd sylwadau treiddgar hefyd gan yr Athro R M Jones Aberystwyth wrth iddo osod Islwyn yn ei gyd-destun llenyddol a hanesyddol.Ffaith ddiddorol, meddai, oedd fod dau brif lenor Cymru yn y ganrif ddiwethaf, sef Islwyn ac Ann Griffiths, ill dau wedi cyfansoddi eu prif weithiau pan yn ifanc.

Y 'Storm' yw'r gyfrol gyntaf yng nghyfres newydd yr Academi Gymreig, sef y Gyfres Glasuron. Bydd yr ail gyfrol, casglaid o ysgrifau llenyddol byr Saunders Lewis, yn barod cyn y Nadolig. Cyhoeddir y 'Storm' gan Wasg Prifysgol Cymru gyda nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru am £4.95

## Ac meddai Janet . . .

Dod i fyw i Gymru i ddiwylliant newydd a gwahanol, roedd e'n ddigon naturiol i fi i eisiau dysgu yr iaith, fel roeddwn i wedi gwneud yn Indonesia a Groeg.

Toc fe ges i syndod yn Ne Cymru, ble i gydnabod eich bod chi yn siarad Cymraeg, hefyd i gydnabod y math o lyniad politicaidd ac ymhellach syniadau "eithaffol" politicaidd.

Does dim eisiau arnon ni yn Lloegr i gyfiawnhau siarad y famiaith; pam yng Nghymru ddylech chi gyfiawnhau siarad eich iaith? Mae'n siomedig bod Cymru yn cael ei rhannu rhwng y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg; wrth gwrs, mae'r bai ar hanes...

Roeddwn i'n dysgu Cymraeg yn Politechnig Cymru gyda Cennard a Basil Davies. Maen nhw'n athrawon ardderchog, ac roedden nhw wedi ysbrydoli fi i ddal i ddysgu am ail flwyddyn. Tybed ar ôl yr ail flwyddyn a fyddaf i'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl; a fydda'i hefyd yn cael fy ngalw'n'eithafwr!..?

Bu'r ddysgwraig sy'n anfon y geiriau hyn ar wyliau yng ngwlad Pwyl yn ystod Awst. Am resymau teg, dymuna i ni beidio â nodi ei henw.

# BIENDA POLSKA

Yn y diwedd roeddwn i'n teimlo mor gartrefol yng ngwlad Pwyl,er ei fod e'n anodd iawn credu mai dim ond pythefnos dreuliais i yno. Pan gyrhaeddais i Warsaw,roeddwn i'n ofnus ac yn ansicr. Efallai byddwn i ddim yn deall gair o'r iaith a bydd y bobl siŵr o fod yn wahanol iawn i ni - dim o gwbl! Roeddwn i'n hapus iawn yno gyda rhai o bobl neisaf a gwrddais erioed.

Ar ôl gadael Warsaw - prifddinas hardd iawn, er ei bod hi wedi cael ei hailadeiladu ar ôl y rhyfel, fe arhosais i yn todz - dinas ddiwydiannol ac yn llwyd ac yn y mynyddoedd yn y de. Felly gwelais i lawer o bethau a siaradais i gyda llawer o bobl. Trwy'r amser clywais i'r geiriau "Biedna Polska" ond ddeallais i ddim. Pam? Druan o wlad Pwyl!

Erbyn hyn rwy'n deall yn iawn. Roedd y bobl yn cwyno bob dydd - Nic nie ma w sklepach - "Does dim byd yn y siopau" a roedd e'n wir. Welais i erioed gymaint o flodau ar werth mewn marchnad. Roedd y bobl yn prynu.llawer ohonynt. Doedd dim lot arall i'w brynu! Roedd y sefyllfa yn well yn Warsaw ac yn y wlad,ond pan adewais i todz roedd e bron a bod yn amhosibl prynu halen a menyn, a roedd tad fy ffrind yn codi am dri o'r gloch yn y bore er mwyn ceisio prynu kilo o gig. Fel arfer mae'r bobl yn gweithio 7 - 3 neu 8 - 4 ac ar ôl hanner dydd does dim bwyd ar ôl yn y siopau! A mae pawb yn gweithio ond yr hen bobl. Sut mae pethau fel hyn yn gallu digwydd? Mae e'n anodd iawn credu fod pethau mor wael, ond mae e'n wir. Roedd ofn arnaf ofyn gormod o gwestiynau ond fel arfer roedd pobl yn siarad yn hollol agored. Roeddwn i'n eu hedmygu nhw'n fawr iawn. Er fod pethau'n wael iawn roedden nhw'n bobl serchus ac yn llawen. "Mae'n anodd i ti ddeall ond mae'n rhaid i ni chwerthin am y sefyllfa. Does dim byd arall i'w wneud," dywedodd rhywun wrthyf.

Ond er eu bod nhw'n ofni ac yn casau y Rwsiaid maen nhw'n protestio erbyn hyn. Mae fy nghalon i gyda nhw. Rwy'n gobeithio yn fawr iawn mynd yn ôl yn fuan i ffindio fod pethau wedi gwella a does dim rhaid poeni bob dydd am beth ni'n mynd i fwyta - ond wn i ddim, mae'r sefyllfa yn ddifrifol iawn.

# ENNILL YSGOLORIAETHAU





Ymhlith rhai o brif lenorion Cymru sydd wedi cael ysgoloriaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ddiweddar, y mae dau ddinesydd.

Mae Marion Eames i gael £3750 dros gyfnod o naw mis i lunio nofel ac mae Emyr Humphreys i gael £5000 dros gyfnod o flwyddyn i orffen cyfres o nofelau.

Mae'r naill a'r llall yn amlwg bob amser ym mywyd Cymraeg y ddinas ac ni all Y Dinesydd feddwl am neb sy'n haeddu'r ysgoloriaethau'n fwy.

Emyr Humphreys yw gwrthrych un o'r llyfrau diweddaraf yn y gyfres, "Writers in Wales". Yno, cawn hanes am ei unig nofel Gymraeg, hyd yn hyn, sef Y Tri Llais. Mawr hyderwn y daw un arall oddi wrtho cyn hir.

Mae Marian Eames, fel y gŵyr pawb wedi mynd o'i hystafell ddirgel i'r rhandir mwyn i hela cnau, ac edrychwn ymlaen yn awchus at ei nofel nesaf.

HYDER

Mae rhai i rieni Caerdydd yn dymuno sefydlu Cymdeithas newydd yn dwyn yr enw HYDER. Diben y gymdeithas yw gofalu am blant sy'n Gymry Cymraeg ond sydd hefyd o dan anfantais feddyliol. Mae rhai o addoldai'r ddinas yn barod wedi noddi'r Gymdeithas yn hael, ond os carech chi wneud eich rhan trwy gyfrannu dewch i noson goffi ar Hydref y 3ydd yn Pen-hydd, Heol Ddwyreiniol y llyn, rhif 118. Bydd croeso i bawb.



GŴYL CERDD DANT CAERDYDD

CYNGERDD LANSIO

gan blant ysgolion Cymraeg y ddinas yn

NEUADD YSGOL GLAN-TAF

HYDREF 17, 1980 am 7.00 o'r gloch

Mynediad : £1 Plant 50c

# HTV v HAFREN!

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus gan yr Awdurdod Darlledu Annibynnol yn Neuadd Reardon Smith, nos Fawrth, Medi 9, i gymryd barn y cyhoedd am drefniadau'r ddau gwmni sy'n ceisio cael y drwydded i ddarlledu yng Nghymru a Gorllewin Lloegr. Mae'r contract gyda Chwmni Harlech yn dod i ben ar ddiwedd 1981 a rhaid i'r Awdurdod benderfynu pa gwmni i'w apwyntio am gyfnod newydd o wyth mlynedd o Ionawr 1982.

Nid oedd y Cadeirydd, y Fonesig Plowden, yn awyddus i drafod dim ond barn y gynulleidfa ar geisiadau Harlech a Hafren, ond roedd yn amlwg fod pawb am helaethu'r drafodaeth i gynnwys problem y Bedwaredd Sianel. Mynegwyd yn gryf gan lawer siaradwr fod y trefniadau presennol o glymu Cymru wrth y Gorllewin yn anfoddhaol a galwyd am awdurdod annibynnol i Gymru. Nid oedd ateb y Cadeirydd na allai Cymru ddal y baich ariannol heb gymorth y Gorllewin yn argyhoeddi. Mynnai rhai fod Bryste yn tra-arglwyddiaethu ar Harlech ac wrth fynnu bod elw masnachol yn bwysicach na dim arall, fod y cwmni yn lladd Cymreictod a'r iaith. "Ar y strwythur y mae'r bai", meddai Emrys Roberts. "Amhosibl yw ceisio rhoi gwasanaeth cyflawn i Gymru a'r iaith Gymraeg ac i ranbarth yn Lloegr ar yr un rhwydwaith. Dywedir mai ar yr aelwyd y mae achub y Gymraeg ac y mae gwirionedd yn hyn. Does dim byd mwy andwyol a dinistriol ar yr aelwyd na dylanwad y teledu. Gofynnaf i'r Awdurdod bwyso ar y Llywodraeth i newid eu meddwl a rhoi'r Bedwaredd Sianel i Gymru a'r Gymraeg". Cytunodd pob siaradwr a'i dilynodd, am wahanol resymau, fod mater y Sianel newydd yn holl-bwysig a bod angen i'r Awdurdod a'r Llywodraeth sylweddoli gryfed y teimlad yng Nghymru gyfan o blaid y Sianel Gymraeg.

Cwynwyd nad oedd Harlech wedi cadw'r addewidion a wnaed pan gafodd y contract gyntaf a bu beirniadaeth ar rai o'i rhaglenni yn enwedig y diffyg darpariath ar gyfer y celfyddydau ac amseru rhai rhaglenni ar gyfer plant yr ysgolion meithrin.

Wrth ateb, amddiffynnodd yr Arglwydd Harlech a Syr Alun Talfan Davies gwmni Harlech a'r gwaith a wnaed ganddynt yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf. Addawodd Mr. Tom Ellis,A.S. ar ran Cwmni Hafren y byddent yn gwneud popeth a allent dros y Gymraeg.

Nawr, mater i'r Awdurdod Darlledu Annibynnol yw penderfynu rhwng y ddau gwmni ond yr argraff gyffredinol yn y cyfarfod oedd nad oedd llawer i'w ddewis rhwng y naill na'r llall.

# LLONGYFARCHIADAU

Yn gyntaf i ddau gerddor ar eu priodas yn ddiweddar. Priodwyd Ruth Eldes James a Howard Watt yn Heol y Crwys ddiwedd Awst. Bydd y ddau yn ymgartrefu yn yr Eglwysnewydd.
Er y bydd yn chwith gan lawer o Gymry Caerdydd golli Nan a Dewi Rowlands o'n plith, mae'n bleser gan Y Dinesydd longyfarch Nan (merch Mr a Mrs Seiriol Davies, Llandaf, ar ei dyrchafiad i fod yn ddirprwy reolwr Cymdeithas Adeiladu Nationwide yng Nghaernarfon. Dymunwn yn dda i'r ddau; Dewi yn ôl yn ei fro, a Nan yn gosod seiliau yno.

## KATIE DANIEL

A hithau yn tynnu am yr oed o 92, bu farw Miss Catherine(Katie) Daniel ar ddydd Sul, y seithfed o Fedi. Yn y blynyddoedd diwethaf bu'n byw ar aelwyd garedig ei gor-nai, Mr Michael Jones a'i briod yn 118, Ffordd Ddwyreiniol y Llyn, ond bydd cenedlaethau lawer o gynddisgyblion Ysgol Uwchradd Port Talbot (Ysgol y Dyffryn yn awr) yn ei chofio fel athrawes Ffrangeg ac athrawes hynaf yr ysgol honno.

Merch ydoedd i'r diweddar David Daniel, rheolwr gwaith glo Cymer (Gwaith y Gwdi ar lafar lleol) yng Nghymer Afan. Bu ef yn ddiacon gyda'r Annibynwyr ac yn gefn i bopeth Cymraeg am flynyddoedd lawer yn y cylch.

Wedi graddio gydag anrhydedd mewn Ffrangeg o Goleg y Brifysgol, Caerdydd yn 1911, penodwyd Miss Daniel i'r ysgol ym Mhort Talbot y flwyddyn ddilynol, ac yno y bu am weddill ei hoes broffesiynol, yn ennill edmygedd a pharchedig ofn to ar ôl to o ddisgyblion. Byddai hi yn trefnu i fynd â phartion o ddisgyblion ar daith i'r cyfandir ac yn y wlad hon yn hir cyn i'r peth ddod yn gyffredin. A thystiai'r plant ar y siwrneiau hyn mai nid yr un Miss Daniel oedd yn eu tywys a'r athrawes a fynnai ddisgyblaeth ac ymdrech ar ran ei disgyblion yn yr ysgol.

Symudodd i fyw o'r Cymer i Gwmafan, gan ymaelodi yng nghapel enwog y "Rock", Pwll-y-glaw. Ac nid aelod mewn enw oedd hi, ond ymrodd i waith yr Ysgol Sul a holl weithgareddau'r capel. Byddai neb yn ei chwmni yn hir cyn y byddai Capel y Rock yn dod i'r sgwrs.

Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Heol y Crwys, Ddydd Gwener, Medi 12, gyda'r Parchedigion Morgan Mainwaring (Cynddisgybl iddi), D.Lodwick Jones a Denzil Harries yn gwasanaethu. Claddwyd ei gweddillion ym medd y teulu ym Mynwent Gyhoeddus Cymer Afan.

G.L.D.


## GWESTY LLETY CYMRO

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

GWELY A BRECWAST
BWYD A GWIN DA

TRWYDDED PRESWYL


## GW3UZS YN GALW!


## GW3UZS YN GALW!


Gunston Jones




Llun HTV

Ysgwn i beth fyddwch chwi'n ei wneud bob bore Sul am 12.30 o'r gloch? Darllen y papur? Trin y bregeth yn oedfa'r bore? Paratoi cinio? Anodd dweud, ond y mae un gŵr yng Nghaerdydd sy'n gwneud yr un peth bob Sul ar yr amser penodedig hwn. Mr. Jeff Diplock, 45, Egremont Rd. yw hwnnw, oblegid fe fydd yn galw, ar ei radio ei hun, ar ddyn nid anenwog ym Mhatagonia, sef Mr.Fred Green. (Fe gawsom gyfle i weld a chlywed Mr. Green yn ddiweddar pan deledwyd y rhaglenni arddderchog hynny "Dringo'r Andes" a "Plant y Paith". Ac fe gofia rhai am blant Mr. Green yn dod am gyfnod fel disgyblion i Ysgol Sir Tregaron).

"Am beth fyddwch chi'n siarad"? gofynnais i Jeff a'i ateb,"Tipyn o bopeth - y tywydd, digwyddiadau yng Nghymru - hanes Patagonia - ymweliad Cymry â'r wlad honno - problemau technegol peiriannau ac ati. Sgwrs ddiddorol a difyr bob tro".

"Ydych chi wedi cael sgwrs â rhywun enwog arall"?

"Ces air â'r Brenin Hussein o Jordan ddwywaith, ond chawson ni ddim sgwrs hir, gan fod pawb o "radio hams" y byd yn ceisio cael gair ag ef, a chael dweud wrth bawb eu bod wedi bod yn siarad â brenin yn ei dŷ ei hunan".

"Rydych chi'n gallu cysylltu â rhywun yn y byd felly"?

"I raddau, mae hynny'n wir. Ond y mae hynny'n dibynnu ar gymaint o ffactorau - cryfder eich trosglwyddydd, amser o'r dydd, y tywydd ac yn y blaen. Byddaf yn clywed pobl o Awstralia, Rwsia, Sweden, Denmarc, America - a Chrug y Bar".

"Crug y Bar!!"

"O, ie, mae gen i gyfaill mawr yno - Alan Hemming sy'n cerfio llwyau caru pan na fydd yn sgwrsio ar y radio. Aeth ef a'i deulu mas i Tristan da Cunha am ryw bedair blynedd - gweithio yno wrth gwrs a byddem yn siarad â'n gilydd bob wythnos ar hyd yr amser".

"Fyddwch chi'n cael siarad â llawer o Gymry Cymraeg?"

"Mae tua mil yng Nghymru sy'n ymddiddori yn y gwaith hwn ac fe fydd rhai ohonom yn siarad â'n gilydd yn Gymraeg, ac os digwydd i ryw Gymro arall yn rhywle ein clywed, bydd yn torri i mewn i'n sgwrs ni gan roi ei nod galw ei hunan. Wedyn byddwn yn danfon cardiau at ein gilydd a chadw cysylltiad pellach wedyn".

"Pryd dechreusoch chi gymryd diddordeb yn y busnes radio 'ma?"

"Bu gen i ddiddordeb mawr mewn radio ers pan oeddwn yn ifanc, ond pymtheg mlynedd yn ôl y ces i drwydded i ddarlledu, ar ôl pasio arholiad y "City and Guilds" wrth gwrs".

Peiriannydd gyda Bwrdd Trydan De Cymru yw Mr. Diplock wrth ei alwedigaeth ac y mae ei weithdy yn llawn trosglwyddyddion a gwifrau a falfiau a thransistorau o bob math. Bellach y mae'n adeiladu'r offer ei hunan ac fe ddywed mai yn ochr beirianyddol y gwaith y mae ei ddiddordeb pennaf ac y mae wrthi beunydd beunos yn ei oriau hamdden yn gwella ac yn ychwanegu at ei beiriannau.

A'i nod galw GW3UZS - GW yw'r llythrennau o flaen pob un sy'n galw o Gymru - GW - am GWalia, efallai.

# Y GOLOFN GAIN

YNG NGOFAL

ARFON

Does dim dwywaith mai un o feirdd y Ddinas yw Gilbert Ruddock. Bu dan law y dewin Elvet Thomas yn Ysgol Cathays, ac yma y bu ar hyd ei oes ar wahan i gyfnodau byrion yn Nulyn ac ym Mangor. Mae'n darlithio ers tro bellach yn Adran y Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Cyhoeddodd lawer yn y cylchgronau yn ogystal â dwy gyfrol o gerddi, 'Y Funud Hon' a 'Cwysi'. Mae'n briod, a'i ddwy ferch fach Meinwen a Gwenan, a ysgogodd amryw o'i gerddi diweddar. Braint y golofn y mis hwn yw cyhoeddi'r gerdd fach hyfryd hon ganddo. Mae'n lleisio profiad llawer ohonom ni rieni on'd yw?

AR RIW PEN-Y-LAN

Dacw fws Bryn-taf ar y gorwel.
Hwylia i lawr
drwy ymchwydd y bore,
yn ysgafn gan obaith,
a'r dyn wrth y llyw yn sicr
o'r ffordd
heb ddeall y geiriau
na grym yr arwyddion.

Hwylia i lawr
at y dorf fach ddisgwylgar
ac aros
i godi coflaid arall ar ei fwrdd,
cyn troi drachefn i'r llif
a'r llwybrau aflonydd.

Chwifia'r dyfodol
o'r tu ôl i'r gwydrau.
Mae'r cargo gwerthfawr eto
ar ei daith,
yn brydferthwch dihafal.
Ond weithiau,
er gloywed y weledigaeth,
brathog yw'r heli yn llygaid
dyn
wrth i'r plant
hwylio i ffwrdd.

GILBERT RUDDOCK

Chwi feirdd eraill, gyrrwch eich cerddi da chwi. Y cyfeiriad yw: 31, Heol Don, Yr Eglwys Newydd.

**YN GWELLA**

**Roedd Y Dinesydd yn falch clywed fod Mr Raymond Edwards, Llandaf, cynolygydd y papur yn cryfhau ar ôl triniaeth yn Ysbyty'r Mynydd Bychan yn ddiweddar.**

# HELP!

Rydych chi wedi cael clywed o'r blaen nad yw sefyllfa ariannol Y DINESYDD yn llewyrchus iawn. Mae gyda ni, yn fras, dair ffynhonnell ariannol. Yn y rhifyn hwn, cydnabyddwn yn ddiochgar gymorth Cymdeithas Gelfyddydau Dwyrain Cymru. Mawr yw ein dyled iddi.

Ffordd arall yw drwy gael tâl am hysbysebion. Ewch ati i gyfrif yr hysbysebion a fu yn rhifyn Medi ac y sydd yn hwn. Mae ein telerau hysbysebu'n ffafriol, a byddai mwy o gefnogaeth o'r math hwn yn help mawr.

Ffordd arall yw cael arian oddi wrthych CHI! Naill ai'n uniongyrchol, trwy rodd neu archeb banc neu trwy gefnogi ein hymdrechion ni i godi arian.

Medrwch helpu'r munud yma!!

Nodwch yn eich dyddiadur y byddwch chi a phawb arall sydd dan yr un to â chi yn dod i neuadd Y Reardon Smith nos Sadwrn, Hyd. 25, am 7.30 o'r gloch i GYMANFA CODI'R TO. Noson o hwyl a chân, a'r cyfan am £1. Plant 50c.

Yn ychwanegol at ganu, o dan faton y maestro ei hun, Alun Guy, cewch wrando ar neb llai na Thecwyn Ifan yn ei morio hi, Pat Griffiths yn adrodd, a sain tannau telyn un o delynoresau blaenllaw Cymru.

Yn goron ar y cyfan, bydd y BBC yno yn recordio'r cyfan ar gyfer y dyfodol.

Os dewch <u>chi</u> yno hefyd, fe gewch wledd gwerth ei chael a helpu eich papur bro ar yr un pryd. Fu erioed well bargen am bunt.

HYSBYSEBU

Gyda'r papur yn awr yn dod allan yn brydlon bob mis, gellir hysbysebu ynddo a dwyn ffrwyth. Mae gennym delerau newydd, arbennig ar gyfer hysbysebion mân. Cysylltwch ag Ieuan Lewis, 17 Driscoll Road, Radyr, Caerdydd. Mae ar y ffôn yn 842831.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Miss Elizabeth Mary Wright, Gelli-glyd, Llandaf a fu farw yn Awst yn 86 oed. Fe'i ganwyd yn Llanfihangel-y-Creuddyn, Ceredigion, yn un o saith o blant, a bu'n byw yn Llundain a Llanbrynmair cyn symud i'r brifddinas.

NOSON DWYNWEN

Cewch bob gwybodaeth am y noson yn Radyr, Ionawr 30, gan John Evans, y BBC. MYM sy'n trefnu.

# COFIO NANSI

Yn nyddiau olaf 1979 bu farw Telynores Maldwyn, Nansi Richards, a chollodd Cymru un o'i chymwynaswyr pennaf ym myd y delyn a cherdd dant. Collodd Cymru hefyd bersonoliaeth annwyl iawn a Chymraes i'r carn.

Cafodd ei chyfeillion eisoes gyfle i dalu teyrnged iddi dair blynedd yn ôl ym Mhafiliwn Corwen. Ond teyrnged undydd-unnos oedd honno. Er mwyn cael rhywbeth mwy parhaol penderfynwyd defnyddio elw y cyfarfod hwnnw fel sylfaen i Ysgoloriaeth ym myd y delyn a sefydlu Ymddiriedolaeth i ofalu am y gronfa ariannol.

Cynrychiolwyr o'r Gymdeithas Cerdd Dant, y Gymdeithas Alawon Gwerin a'r Gymdeithas Ddawnsio Gwerin yw'r Ymddiredolwyr a chofrestrwyd yr Ymddiredolaeth bellach fel elusen. Mae £920 yn y Gronfa, £220 ohono yn roddion a dderbyniwyd gan gyfeillion yn dilyn marwolaeth Nansi.

Yn eu cyfarfod diwethaf penderfynodd yr Ymddiriedolwyr y dylid diolch yn gyhoeddus i bawb a gyfrannodd hyd yn hyn. Ar yr un pryd teimlid nad oedd cronfa o £920 yn wir deilwng o gyfraniad aruthrol Nansi Richards nac yn arwydd terfynol o'n dyled iddi fel cenedl.



Apeliwn arnoch i ddefnyddio'r cyfle hwn - nid yn unig o ran parch i goffadwriaeth Nansi Richards ond hefyd er mwyn hyrwyddo'r safonau a'r gwerthoedd yr ymdrechodd hi drostynt yn ystod ei hoes.

Anfonwch eich cyfraniadau os gwelwch yn dda i'r Trysorydd, Mr. Derwyn Roberts, 7 Ffordd Grosvenor, Wrecsam, Clwyd. Diolch o galon.

# GAIR O BROFIAD

Linda Wood

Ganwyd a magwyd fi yng Nghaerdydd ar aelwyd gwbl Saesneg. Roedd fy nhad yn hannu o Fanceinion, ac er i'm mam gael ei geni yng Nghaerdydd mae ei theulu hi'n hannu o Swindon. Chlywais i ddim gair o Gymraeg felly nes i mi fynd i'r ysgol gynradd. Yno y darganfyddais i'n ddigon buan fy mod i'n mwynhau unrhyw weithgareddau Cymraeg yn yr ysgol a bod y gwersi Cymraeg yn aros yn y meddwl heb fawr o ymdrech o'm rhan i. Roedd rhywbeth yn dweud wrthyf mai Cymraes oeddwn i - er yn Gymraes di-Gymraeg - hyd yn oed yr adeg honno.

Cefais fy addysg uwchradd yn Ysgol Cathays, magwrfa nifer fawr o siaradwyr Cymraeg, ac yno y dysgais i siarad Cymraeg mewn gwirionedd. Mawr iawn yw fy nyled i'r athrawes arderchog a oedd yno ar y pryd, sef Mrs. Eira Phillips. Ganddi hi y dysgais batrymau'r iaith, ac yn ddiweddarach ychydig am lenyddiaeth Gymraeg. Erbyn i mi gyrraedd y chweched dosbarth yr oeddwn yn gwbl sicr mai astudio'r Gymraeg yn y brifysgol ac wedyn mynd yn athrawes Gymraeg yr oeddwn i am ei wneud.

Trwy gydol fy ngyrfa ysgol uwchradd byddwn yn mynd ar gyrsiau iaith i wersylloedd yr Urdd yn Llangrannog a Glan Llyn - canolfannau sydd wedi rhoi ysbrydoliaeth i gymaint o blant, a minnau yn eu plith. Yma y cefais yr hyder i ymarfer yr hyn yr oeddwn wedi'i ddysgu yn yr ysgol. A dweud y gwir,doedd fawr o ddewis gen i gyda phobl mor frwd â Gwilym Roberts yno! Yno,hefyd,y dysgais i am Gymru, ei hanes a'i phobl. Heb amheuaeth, y gwersylloedd a'm gwnaeth yn Gymraes yn ngwir ystyr y gair.


Erbyn heddiw fe fydda i'n mynd i'r gwersyll fel hyfforddwr ddwywaith neu dair bob blwyddyn. Mae ychydig o newidiadau wedi bod, fel adeiladau mwy cyfforddus a wynebau gwahanol, ond mae'r ysbrydoliaeth i'w chael yno o hyd er mai athrawon sydd wedi dysgu Cymraeg eu hunain sy'n ei roi heb fawr o gymorth gan y Cymry iaith-gyntaf. Tybed ble mae'r holl Gymry sydd mor uchel eu cloch am achub yr iaith?

Ar ôl gadael yr ysgol fe es i i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, i astudio'r Gymraeg fel pwnc gradd. Roeddwn yn ddigon ffodus i gael lle yn y neuadd breswyl Gymraeg yno ac felly byw am dair blynedd yng nghwmni difyr myfyrwyr Cymraeg eraill. Wrth ymdoddi i fywyd Cymraeg y coleg, cwrdd â ffrindiau newydd o bob rhan o'r wlad, ymuno â gwahanol gymdeithasau Cymraeg y coleg a dysgu am hanes yr iaith a'i llenyddiaeth o'r dechrau hyd heddiw y des i i fod yn un o'r Cymry Cymraeg a siarad yr iaith yn gwbl naturiol. Os ydych am siarad yr iaith yn rhugl gwnewch yn fawr o bob cyfle i ddefnyddio'ch Cymraeg. Roeddwn i'n lwcus yn Aberystwyth i gael y cyfle i siarad Cymraeg bob munud o'r dydd. Agorwyd byd newydd i mi yno a'r brifysgol honno a roddodd gyfanrwydd i'm bywyd fel Cymraes.

Wedi i mi ennill fy ngradd yn y Gymraeg yr oedd y llwybr yn glir o'm blaen - gwneud blwyddyn o ymarfer dysgu a mynd yn athrawes - a dyna a wnes.Cefais fy swydd gyntaf fel athrawes Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Prestatyn, Clwyd. Ardal hyfryd yw Prestatyn - heb yr ymwelwyr! gyda chryn dipyn o Gymraeg yn y pentrefi gwledig cyfagos ond yn dioddef oddi wrth y Saeson niferus yn symud i fyw yno o Lerpwl a Chaer. Serch hynny, treuliais ddwy flynedd yno yn dysgu fy nghrefft cyn symud i lawr i ddysgu mewn ysgol gyfun yng Nghwmbrân, Gwent.

Gwahanol iawn oedd dysgu yng Ngwent, er i mi ei fwynhau'n fawr a gwneud ffrindiau da. Mae'r Gymraeg mewn safle israddol iawn yno. Yn wir, dim ond un ysgol uwchradd sy'n dysgu Cymraeg yng Nghwmbrân a does dim cefnogaeth gan yr awdurdod addysg o gwbl. Roedd y plant yn ddigon brwd yno ond oherwydd y diffyg cefnogaeth a'r nifer fach o wersi Cymraeg a gawsant roedd eu brwydr yn un anodd iawn.

Bellach mae'r rhod wedi troi ac ers rhai misoedd nawr rwy'n bennaeth yr Adran Gymraeg yn fy hen ysgol yng Nghaerdydd, sef Ysgol Cathays. Mae digon o newidiadau wedi bod ers i mi fod yno'n blentyn, a phrofiad digon rhyfedd yw cyd-weithio gydag athrawon fuodd yn fy nysgu i pan oeddwn yn ddisgyl yno. Beth bynnag, rwy'n mwynhau fy ngwaith yno ac yn falch iawn o'r cyfle i roi cymaint ag y gallaf yn ôl i'r ysgol a'm dechreuodd ar y llwybr i fod yn Gymraes.



## LLONGYFARCH

Mae nifer o blant wedi bod yn llwyddiannus mewn arholiadau piano yn ddiweddar. Deuant i gyd o Ysgol Gerdd y Mynyddbychan.

Cafodd Ceinwen Ruddock radd 11 gydag anrhydedd, Hawys Melangell Ogwen radd 11 gyda chlod, Eleri Dyfri Jones radd 11 ac Eleri Coslett radd 1.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimla'r Dinesydd â Mrs Rhian Ruddock a gollodd ei mam a oedd yn byw yn Trap, Dyfed, ar y pumed o Fedi.



**Martin Huws**
Golygydd newydd Y Dinesydd

Yn ogystal â'm gwaith yn yr ysgol rwy'n cymryd dosbarth nos i oedolion unwaith yr wythnos yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy. Ar nos Fercher mae'r Ganolfan yn ferw o bobl o bob oed sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg, ac os oes yna bobl sydd am ddysgu onid yw'n ddyledus i ni'r athrawon a Chymry Cymraeg eraill eu helpu? Fe synnech i weld cyn lleied o bobl sydd yn barod i roi o'u hamser i wneud gwaith mor bwysig i barhad yr iaith.

Fe fydda i'n ceisio meddwl weithiau sut fywyd y byddwn i'n ei fyw nawr pe bawn i heb ddysgu Cymraeg, ond wrth gwrs mae'n amhosibl dweud. Mae un peth yn sicr gen i, mai Cymraes oeddwn i o'r dechrau a damwain yn unig oedd y ffaith nad oeddwn yn siarad Cymraeg. Wedi i mi ddysgu'r iaith a dod yn Gymraes gyflawn rwyf yr un mor sicr mai Cymraes a fydda i byth, beth bynnag a ddigwydd. Am hyn i gyd rhaid i mi ddiolch i'm rhieni am fy nghefnogi'n selog ym mhob peth, i'm hathrawon am eu dawn a'u hamynedd ac i'm holl ffrindiau.

# LLYTHYRAU

Golygydd Y Dinesydd.

Mae Gwynn Ap Gwilym wedi gosod ei ben ar y blocyn ac yn haeddu ei gadw yno nes iddo wybod mwy am yr hyn sydd yn digwydd yng Nghaerdydd ynglŷn â dyfodol y Gymraeg a pethau gorau ein cenedl. Mae'n ymddangos i mi mai ychydig iawn mae o yn ei wybod am y rhai sydd wedi cychwyn sefydliadau sydd yn gefn i'r genedl ac yn parhau i aros yn y brifddinas. Oni bu i Mr. Emrys Evans gynnal breichiau Syr Alun Talfan Davies wrth iddo gael ei ddyrchafu i'w ddilyn i swydd anrhydeddus ynglŷn â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nyffryn Lliw? Onid gwerinwr ydyw Emrys wedi dyrchafu i swydd bwysig; a faint o rai tebyg sydd yn dal i aros yn y brifddinas - gwnaed i cyfaill beiddgar a'i Ben ar y Blocyn ymchwiliad ac os myn mi ddof gydaf ef i'w ryddhau o'i gaethiwed.

Deuais i gylch y brifddinas yn 1957 ac er hynny 'rwyf wedi ceisio dadansoddi angenrheidiau Cymru i ddiogelu y rhannau hynny y mae y Gymraeg yn bodoli yn naturiol, ac nid ydyw bod yn llenor neu fardd llwyddiannus yn angenrheidiol i sylweddoli gwerth difesur yr iaith Gymraeg. Tybiaf mai gwerinwr ydwyf ac un diaddysg gyda hynny, eto, mae'r iaith Gymraeg yn golygu mwy na dim o werthoedd y byd hwn i mi. Nid ydyw o angenrheidrwydd fy mod yn llenydda ac yn ennill cadeiriau yn y Genedlaethol ar sail gorchest, nid dyma'r math o bobol sydd yn mynd i ateb gofynion Gwyn Ap Gwilym ac efallai bod rhai tebyg yn gadael y brifddinas am a ŵyr o.

Gwaith prifddinas ydyw diogelu ardaloedd Cymraeg Cymru ac allwch chwi ddim gwneud hynny heb y sefydliadau y dylase prifddinas eu cael. Trist ydyw meddwl nad ydym eto wedi cael y gefnogaeth gan rai a allsai fod wedi ein cefnogi yn yr ymgyrch a gefnogwyd gan y diweddar Dr. Idris Jones, Prif Wyddonydd y Bwrdd Glo yn ei Femorandwm gwerthfawr ynglŷn ag anghenion Cymru. Byddai'n agoriad llygad i Gwynn fod wedi ei ddarllen wedi iddo ymddangos yn 'Y Gwyddonydd'.

Gwendid sylfaenol ein cenedl, ac mae hyn yn amlwg yn aelodau Plaid Cymru yn ogystal â'r pleidiau eraill ydyw fod Cyngor Caerdydd (ein prifddinas) a Chyngor De Morgannwg sydd yn rheoli adrannau o'r brifddinas yn cael gwneud fel a mynnant â Chymru a chymaint o freintiau wedi dod yma. Nid oedd rhaid mynd mor bell gyda datganoli heb yn gynta' ennill cefnogaeth y cynghorau a nodwyd, a cheisiais ddweud hyn wrth rai fel Elystan Morgan a Prys Davies.

Nid ydyw Neuadd Gyngerdd Genedlaethol ac Amgueddfa Forwrol yn mynd i ddiogelu gwaith i drigolion Glyn Ebwy, Shotton, a Phort Talbot ond dyma'r sefydliadau a gafodd gefnogaeth y llywodraeth Lafur tra oedd cyngor y Rhondda a Chyngor Dosbarth Caerfyrddin yn cefnogi Canolfan Fasnachol Dechnolegol ynghyd ag addysg briodol a awgrymwyd gan y diweddar Dr. Idris Jones. Gresyn na fyddai Gwyn Erfyl ac Alun Evans wedi rhoi cyfres o raglenni yn sôn am freuddwyd Idris Jones cyn iddynt fynd i'w diogelwch Cymreig.Mae'n rhaid i mi derfynu. Mae athrawes gyrfaoedd (Cymraes) wedi bod ar y ffôn yn fy atgoffa o'r cyfarfod pwysig sydd gennym yn y brifysgol heno i geisio gwneud ychydig dros Gymru ac yn arbennig yr ardaloedd Cymraeg.

AMBROSE WILLIAMS

Annwyl Olygydd

Ga i ddiolch o galon i chi am eich mawr ddoethineb yn rhoi tudalen gyfan o ofod i Gwynn ap Gwilym yn y rhifyn diweddaraf. Mae'n wir dweud mai dyma'r erthygl mwyaf doniol i ymddangos yn y Dinesydd ers blynyddoedd. Wrth raffu un celwydd ar ol y llall ni ellir gwneud dim byd ond chwerthin yn iach ar ben ei ddiffyg gwybodaeth. Rwy'n deall fod y gwr yma yn perthyn i'r criw hunangyfiawn hynny - y werin bobl yng nghefn gwlad Cymru sy'n aberthu cymaint wrth fyw yno.

Fodd bynnag, annwyl Olygydd, a oeddech mor brin o ddefnydd i lanw'ch papur bendigedig, fel bod yn rhaid i chi wahodd y Bonwr ap Gwilym i ysgrifennu llond tudalen o sothach. Diolch am wneud gan fod yr erthygl wedi rhoi llawer o gysur i mi, i wybod fod yna bobl digon tebyg i rai Caerdydd yn byw yng nghefn gwlad Cymru bellach.

Rwy'n meddwl, annwyl Olygydd, gan eich bod wedi cael un ymateb i'ch gwahoddiad beth am ofyn iddo ef ac ychydig o'i ffrindiau efallai ddod i lawr i Gaerdydd i gynnal dadl iawn ar y pwynt sy'n ei gorddi gymaint. Dw i'n siwr y gellid cael noson hwyliog dros ben. Dw i'n siwr y byddai Vaughan Hughes yn un person fyddai'n barod i ddod gydag ef yn gwmni.

Daliwch ati, barchus Olygydd, i roddi gofod i erthyglau sy'n peri i ni chwerthin yn iach.

Yr eiddoch yn ddiolchgar,
JOHN ALBERT.

Annwyl olygydd,

Fe fydd côr poliffonig Caerdydd yn cynnal gwrandawiadau i unrhyw un sydd â llais da ac yn dymuno ymuno â'r côr ym mis Hydref.

Os oes gennych lais da a wnewch chwi gysylltu â Howard Goodfellow yn 148 Westbourne Road, Penarth, neu ffoniwch Benarth 707827.

HOWARD GOODFELLOW

Annwyl olygydd,

Beth amser yn ôl, gwnaethpwyd apêl am recordiau ar gyfer Radio Morgannwg. Dyma apêl arall - am gyflwynwyr rhaglenni Cymraeg y tro hwn. Does dim angen cymhwyster arbennig, na gwybodaeth eang o fyd disgiau.

Os gall rhywun fforddio awr bob wythnos, yna cysyllter ag Alun Jones, rhif ffôn Caerdydd 63750 neu Juli Paschalis, Caerdydd 30499. Diolch.

ALUN JONES

## Y GWENITH GWYN



Dyma Gillian Elisa Thomas a oedd yn chwarae rhan Ann Thomas o Gefnydfa yng nghynhyrchiad diweddaraf Cwmni Theatr Cymru'n ddiweddar.

Cafwyd perfformiad bywiog a da ganddi hi a nifer o'r cast. Yn anffodus, fel y nodwyd gan yr arbenigwyr ar ôl Eisteddfod Dyffryn Lliw, doedd y cynhyrchiad yn ei gyflawnder ddim mor llwyddiannus.

Mae stori sentimental Ann yn enwog, a bu i'r chwedl "newydd wedd" yma fethu â chreu unoliaeth. Mae'n anodd gwybod pa mor bell y gall awdur fynd cyn difetha'r gwreiddiol.

Mae'n anodd derbyn y gellid hepgor bugeilio'r gwenith gwyn yn llwyr! Ond dyna a wnaed.

# O'R GORFFENNOL

Un o'r gwahaniaethau mwyaf rhwng papur bro dinas a phapur bro yn y wlad yw nad oes gan bapur y ddinas gynifer o ffynonellau hanesyddol o ddiddordeb cyffredinol i dynnu oddi arnyn nhw. Ond mae'n bosibl dod o hyd i rai pethau gwir ddiddorol o bryd i'w gilydd. Fel y llun yma, er enghraifft.



Gall golygydd Mis Hydref ddweud ychydig amdano. Llun o gwmni drama Heol y Crwys - yn ystod perfformiad o "Y Cybydd" gan Moliere. Does ganddo fe'r un syniad pa bryd y bu'r perfformiad nac ychwaith pwy yw'r actorion - yn bennaf am mai dyn o bant yw e. Ond mae'n adnabod dau - fel Denis Jones, actiwt profiadol a'i ddoniau'n ddwfn ym myd y ddrama. Ond roedd bob amser yn meddwl mai ym myd tenis yr oedd gwreiddiau'r unig berson arall sy'n gyfarwydd iddo - sef Gwilym Roberts.

Pwy yw'r lleill? Bydd nifer ohonoch yn adnabod y rhan fwyaf ohonyn nhw. Felly, beth am amfon gair i'r golygydd? Dewch â hanes y perfformiad, ac enwau'r rhai a anfarwolwyd gan y llun.

# DINESYDD AR DAITH

(Rhywle i fynd)

Os carech chi drip i LUNDAIN, Hydref 11, 1980, ffoniwch ar unwaith 754559. Bydd Tegwen Evans, 6, Ridgeway, Llysfaen, ar y pen draw i roi pob cyfarwyddyd i chi. Byddwch hefyd yn helpu M.Y.M.
Os carech chi deithio'n bellach, a mynd i ISRAEL, Pasg 1981, rhaid ichi anfon gair at Y Parchedig Cynwil Williams, 12 Dorchester Ave. Pen-y-lan. Mae lle i hanner cant mewn awyren sy'n gadael Bryste ar Ebrill 14eg. Mae hwn yn bererindod arbennig ar gyfer athrawon, a chyst y cyfan £300. Gall unrhyw un sydd â diddordeb fynd!
Beth am TWNISIA a GOGLEDD AFFRIG, Chwefror 22 - 29, 1981? Gwestyau da, teithio a phrydau bwyd - y cyfan am £195.
Neu ewch i'r AIFFT, Ebrill 16 - 25, 1981. Fe gyst hyn £336 ichi, ond mae gwely, brecwast a theithio yn gynwysedig. Diddordeb? Yna, cysylltwch â Hywel Jeffreys, Ysgol Rhydfelen. (3868 neu 3625)

# GOLYGYDD NEWYDD

Golygydd newydd Y Dinesydd yw Mr Martin Huws, 129, Heol Richmond, Y Rhath, Caerdydd - un o blant y ddinas. Hynny yw, cafodd ei eni yn y ddinas a bu'n ddisgybl ym Mryn-taf cyn symud ymlaen i ysgol Cathays. Aeth oddi yno i Goleg Prifysgol Caerdydd a graddio yn Y Gymraeg. Mae ar hyn o bryd yn gweithio yn Sain Ffagan.

Mae ganddo brofiad yn barod fel golygydd. Bu am gyfnod yn golygu AR DAF, papur na chafodd oes hir.
Mae panel golygyddol a phwyllgor gweithredol Y Dinesydd yn falch o'i groesawu i'n plith achos mae'n cynrychioli to o bobl yn y ddinas sydd ddim wedi bod yn amlwg ar dudalennau'r papur. Hyderwn y bydd y lleisiau ifanc yn amlycach yn y papur hwn o hyn ymlaen. Os byddwch am ffonio newyddion iddo, gellwch ei gael ar y ffôn yn 42988.

# GLAN-TAF

Dal i dyfu y mae ysgol Glan-taf. Mae 140 o blant newydd wedi mynd trwy'r drysau'r mis hwn gan godi'r cyfanswm i fwy na 370. Wrth gwrs, golyga hyn fod galw am ragor o athrawon, ac estynnir croeso i bob un o'r rhain...

Ellis Griffiths sy'n dod o Ysgol Uwchradd Cathays. Ef fydd pennaeth Adran Daearyddiaeth yr ysgol. Daw'n wreiddiol o'r Tymbl.

Keith Jones, pennaeth newydd yr adran Fathemateg, a'i wreiddiau yn Nefyn, Gwynedd.

Nerys Wyn Jones, o Gwmpenmachno, Gwynedd. Bu'n dysgu am beth amser yng nghymoedd Gwent ac wedyn ym Mhont-y-clun. Hi fydd pennaeth yr adran Addysg Grefyddol.

John Rees yw pennaeth yr Adran Hanes. Roedd yn gyn bennaeth yr un adran yn yr ysgol Saesneg.Mae Mrs Rees yn flaenllaw gyda Merched y Wawr.

Mae Dilys Bradley yn newydd-ddyfodiad i'r Adran Saesneg. Roedd yn gyn-bennaeth yr Adran Saesneg yn Rhydfelen ac yn awr yn dychwelyd i ddysgu. Hi yw unig dramorwraig yr ysgol - daw o Ynys Môn!

Aelod newydd o'r Adran Gymraeg yw Peter Griffiths, cyn bennaeth Adran y Gymraeg, Ysgol Pen-dre, Merthyr Tudful. Mae'n frodor o Bontyberem.

Brodor o'r Coelbren, Cwmtawe, yw Huw Jeffreys, sy'n ymuno â'r Adran Ddaearyddiaeth. Roedd yn bennaeth Adran Ddaearyddiaeth yr adran yn yr ysgol Saesneg.

Cynaelod o'r Ysgol Saesneg yw Arnold Lloyd hefyd. Athro Adfer yw e, a daw o bentref mwyaf Cymru sef Rhosllannerchrugog.

Daw Elizabeth Williams o ardal Pontardawe a bydd yn dysgu Gwyddoniaeth yng Nghlantaf. Bu'n Uwch-ddarlithydd ym Mholitechnig Cymru, Trefforest.

Mae'n ddiddorol nodi fod pob sir, ar wahan i Forgannwg Ganol, yn cael ei chynrychioli ar y staff ar hyn o bryd. Daw pymtheg o Ddyfed, tri o Wynedd, dau yr un o Dde Morgannwg, Gorllewin Morgannwg a Phowys. Daw un o Glwyd ac un o Went!

## MONA'R ANDES

Siwrnai dda i Mona Meirion sydd ar fin cychwyn am Batagonia fel Cyfeilydd Côr Gofynys. Byddant yn cynnal cyngherddau yn Nyffryn Camwy a Chwm Hyfryd, a bydd Mona yn beirniadu yn Eisteddfod y Wladfa. (un o fwrdd Golygyddol y Dinesydd yn eiddigeddus iawn!!)

# COLOFN Shân Emlyn

Does dim fel bod yn gyson yn nag oes? Felly, o ddiffyg meddwl am rywbeth mwy aruchel i'w ddweud dyma nodi argraffiadau dau bâr a fu'n lletya efo ni yn ddiweddar.

Y cwpwl cynta i ddod oedd John ac Uriena Lewis o Drofa Dulog. Dyma eu hymweliad cynta a Chymru.Prin y bu John oddiar dir ei filltir sgwâr sef fferm fechan yn Nyffryn Camwy - a honno'n fferm ddigon anghysbell. Rhyfeddwyd pawb yn y Wladfa bod John Lewis o bawb yn mentro i deithio wyth mil o filltiroedd i'r 'Hen Wlad' a hwythau byth yn ei weld hyd yn oed yn Nhrelew.

Un o'r cwestiynau cynta a ofynais i Urena oedd a oedd Cymru rywbeth yn debyg i Gymru ei dychymyg - a dyma'i hateb "Wel,Shân mae Cymru mor dlws, ac mor wyrdd, a doeddwn i ddim yn disgwyl i'r mynyddoedd fod mor uchel - ryda ni wedi'n dysgu bod Cymru'n fach - arwahan i bod hi'n annwyl ynte - ond wir Shân petaech chi'n ei smwddio hi - mi fyddai Cymru'n fawr iawn!

Nid oedd y ddau yn gyfarwydd â thŷ deulawr, a droeon yr aeth y ddau ar goll yn tŷ ni. Deuai Uriena i'r gegin yn amal gan ddweud "Shân fach,rydwi wedi bod yn eich cwpwrdd crasu bora 'ma ac yn eich llofft chi ddoe - wel wel!"

Un dydd aeth y ddau yng nghwmni Selwyn Roderick i Sioe Amaethyddol y Dair Sir yng Nghaerfyrddin. Dyma roi benthyg wellingtons i'r ddau a chychwyn o'r gegin am y drws ffrynt i ffarwelio â'r ddau. "Ta ta rŴan" medda nhw a chychwyn yn syth i fyny'r grisiau a chyrraedd y landing cyn sylweddoli eu camgymeriad.

Un bore dyma awgrymu tybed a hoffent fynd i weld y siopau - Uriena'n daer am fynd, John yn penderfynnu y byddai'n well ganddo eistedd yn yr ardd. Esboniodd Uriena mai dyn yr awyr iach yw John "....ar y fferm ac yn yr awyr agored y mae John yn hoffi bod...." John yn ychwanegu "Iâ,mae campwaith y Brenin Mawr dipyn rhagorach na champwaith dyn".

Cawsom amser difyr tu hwnt efo nhw - John yn adrodd hanes rhywun yn gofyn iddo sut y teimlai pan ddaeth yn daid: "teimlo'n iawn chi, yr unig beth sy' 'mhoeni i ydy bod raid imi gysgu efo nain"!

Ar eu diwrnod ola efo ni aethom â hwy i Sain Ffagan ac roedd y ddau wedi dotio at bopeth. Ar ddiwedd y pnawn dyma fynd am de ac uwchben paned dyma Uriena'n dechrau diolch inni am ein croeso gan ychwanegu "..gobeithio y cawn ni fyw i roi croeso i chi ac Owen yn Drofa Dulog, yntê John?" - John dipyn yn drwm ei glyw ac Uriena'n ail adrodd 'i hun - ac medda John, "Wel iâ, un ohonom ni beth bynnag"! Bu bron inni dagu uwchben ein te a phwffian chwerthin y buom am funudau.

Gadawodd y ddau y bore canlynol ac yn y pnawn cyrhaeddodd Glyn a May Ceiriog Hughes; hwy ar eu hail ymweliad â Chymru ac yn dipyn mwy cynefin â theithio. Roedd natur y sgwrs efo nhw'n wahanol iawn - dau wedi'u magu yn y Dyffryn mewn awyrgylch wledig ond yn bobol y dre ers blynyddoedd. Dyma ddau sy'n flaenllaw ym mywyd Cymreig Trelew ac yn ymddiddori yn hanes y Wladfa a hanes Cymru, ac yn ymdrechu i ddeall ein problemau yn y Gymru gyfoes.

Un noson dyma Glyn yn deud "Wyddoch chi be - mi ryda ni'n 'i chael hi'n anodd i ddeall pethau yma - y tro diwetha inni fod yma roedd pawb yn dadlau am ymuno â'r Farchnad Gyffredin. Mynd i de at deulu a chlywed dadleuon dros ddweud,"Ie", mynd i rywle arall i swper a phawb yno yn daer dros ddweud "Na". Wedi mynd yn ôl 'draw' dyma helynt y Refferendwm yn codi'i ben a ninnau'n darllen y Cymro a'r Faner ac yn methu credu'r newydd bod Cymru wedi gwrthod y Cynulliad. Dyma ni yma y tro yma ac mae pawb yn dadlau am y Bedwaredd Sianel. Dyda ni ddim yn gwybod beth i'w feddwl - dyda ni ddim yn deall - ac eto dwi'n meddwl y dylai Cymru gael gwasanaeth teledu iddi'i hun. Yda chi wedi darllen "Aros Mae"? Wel mi rydwi wedi bod yn darllen hanes y Cymry dros y canrifoedd - mi ryda chi wedi bod yn ymladd ac yn ffraeo ymysg eich gilydd erioed - ac mi ryda chi'n dal i wneud hynny".

Dyna rywbeth i gnoi cil arno ynte?

# CRONFA YMGYRCH DELEDU

Ddydd Llun, Gorffennaf 28ain, cosbwyd Dr. Meredydd Evans, Dr. Pennar Davies a Mr. Ned Thomas, tri o wŷr mwyaf deallus, mwyaf rhesymol a mwyaf eu parch Cymru heddiw, â dirwy o £500 yr un, ynghyd â chostau trwm iawn, am weithred symbolaidd mewn ymateb i frad y llywodraeth Doriaidd ynglŷn â sefydlu Sianel Deledu Gymraeg i Gymru. Ymateb y barnwr yn achos Tri Pencarreg oedd dweud fod yr achos yn ffars, a dichon mai dyna'r unig air o wirionedd a lefarwyd gan y Barnwr Robin David yn ystod yr holl achos.

Ffars o achos lle na chaniatawyd i'r rheithgor ystyried y mater hyd yn oed, ond eu gorchymyn gan y barnwr i gael y diffiynyddion yn euog; lle na chaniatawyd i'r diffiynyddion i gyflwyno eu rhesymau am weithredu i'r llys, ar y sail nad oes lle i "wleidyddiaeth" mewn llys barn, ond lle rhoddwyd cosb cwbl wleidyddol arnynt (dros £3,000 i'w dalu am beri difrod gwerth £173)

Ymgais oedd hon i dorri ysbryd ymgyrchwyr dros hawliau Cymru drwy gosbi tri unigolyn yn drwm iawn. Ond yr hyn a anghofiodd y barnwr oedd nad tri pherson yn gweithredu fel unigolion a oedd yma, ond rhan o ymgyrch gref a gefnogir gan filoedd o bobl - dyma gyfle i ni oll rannu'r baich.

Nid cronfa ar gyfer tri pherson yn unig fydd hon. Gobeithiwn drwy haelioni pobl Cymru, adeiladu Cronfa gref ar gyfer y dyfodol i gefnogi pawb a fydd yn gorfod wynebu cosbi difrifol yn y dyfodol. Drwy gyfrannu i'r Gronfa hon, dangoswn nad nifer bach o unigolion sydd yn gwrthwynebu grym Sefydliad Lloegr ond ewyllys unedig cenedl gyfan. Mewn undeb mae nerth; boed i ni wneud cosb a fwriadwyd i dorri ysbryd <u>un</u> yn gosb a rennir yn llawen gan <u>bawb</u>. I'r Gad!

<u>Noddwyr</u>: Geraint Bowen, Gwynfor Evans, Philip Madoc, Dafydd Elis Thomas, Dafydd Wigley, Marion Griffith Williams. Gyda chefnogaeth Plaid Cymru a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Anfoner unrhyw gyfraniad i'r Trysorydd, D.O. Davies, Ysw., d/o Banc Lloyds, Rhydaman,Dyfed. SA18 3DH.

## MEWN LLAFUR . . .

Dewiswyd Emyr Currie Jones yn ddarpar ymgeisydd i etholaeth Trelai yn yr etholiadau lleol fis Mai nesa.

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.



Cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Dinesydd. Argraffwyd gan Fingerprints, 56 Mackintosh Place, Caerdydd.